# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013** |
| Amser: | **09:01 - 10:36** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_29_01_2013&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Bethan Jenkins (yn lle Elin Jones)** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones AC, a dirprwyodd Bethan Jenkins AC ar ei rhan.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol i gael ei barn ar y ddeiseb; a
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn gofyn a yw'n teimlo bod ganddo gyllideb ddigonol i weithredu gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro ac a oes unrhyw gynlluniau i gael gwared ar y clinig presennol.

### 2.2 P-04-449 Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr - Achub ein Gwasanaethau - Atal yr Israddio!

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ofyn eu barn ar y ddesieb, gofyn pa ymgynghoriad sydd wedi cael ei gynnal, sut y bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i ddatblygu cynlluniau a phryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

### 2.3P-04-450 Mae Angen Ysbyty Cwbl Weithredol ar y Barri a Bro Morgannwg

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ofyn ei barn ar y ddeiseb, gofyn pam nad yw Uned Mân Anafiadau Ysbyty'r Barri yn cynnig gwasanaeth 8 awr y diwrnod, 5 niwrnod yr wythnos, a gofyn sut y mae'r uned wedi'i staffio.

### 2.4P-04-451 Achub Gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ofyn pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal, sut y bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i ddatblygu cynlluniau a phryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

### 2.5P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon, a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Comisiynydd Plant Cymru; a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gael eu barn ar y ddeiseb.

Gall y Pwyllgor wneud darn byr o waith ar y ddeiseb hon yn dibynnu ar yr ymatebion sy'n dod i law.

### 2.6P-04-453 Gwelliannau ym Maes Awyr Caerdydd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn eu barn ar y datblygiadau diweddar o ran y maes awyr, ac a yw'r datblygiadau hyn yn bodloni eu gofynion.

### 2.7P-04-454 Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn ei farn ar y ddeiseb, a gofyn a oes ganddo unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth neu ddigwygio deddfwriaeth bresennol;
- y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;
- Comisiwn y Cynulliad;
- y Cwnsler Cyffredinol, i gael eu barn ar y ddeiseb a:
- gofyn am bapur briffio cyfreithiol ar y ddeiseb.

### 2.8P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf, a chytunodd i aros am ymateb gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i’r cais am ragor o wybodaeth am sut y mae’r broses ymgynghori wedi llywio’r broses o wneud penderfyniad.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-04-421 Rhwystro Trident rhag dod i Gymru

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at:

- Lywodraeth y DU i ofyn a oes unrhyw drafodaethau wedi’u cynnal â Llywodraeth Cymru;
- y deisebwyr i geisio eu barn ar ymateb y Prif Weinidog; ac
- Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau i gael ei farn ar y ddeiseb.

### 3.2P-04-434 Mae’r Cymry a’r Somalïaid fel ei gilydd yn caru barddoniaeth

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, ac yng nghyd-destun yr ymateb hwn, cytunwyd y dylid cau’r ddeiseb. Diolchodd y Pwyllgor i’r Llywydd am ymateb mor gadarn i’r ddeiseb.

### 3.3P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi yng Nghymru

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i ofyn:

- bod pob eglwys annibynnol yn rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- pryd y mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn disgwyl cwblhau ei waith; a
- bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

### 3.4P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn i’r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), ei fod yn cael amserlen ar gyfer ystyried y Bil a bod trawsgrifiadau o unrhyw drafodaethau perthnasol yn cael eu hanfon ato.

### 3.5P-03-187 Diddymu’r Tollau ar ddwy Bont Hafren

Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar effaith economaidd y Tollau ar ddwy Bont Hafren a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn pa gamau y mae’r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd yn dilyn cyhoeddi’r astudiaeth, gyda’r bwriad o gau’r ddeiseb unwaith i’r wybodaeth hon ddod i law.

### 3.6P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn i’r Pwyllgor gael gwybod pan fydd penderfyniad ar gyllid wedi cael ei wneud. Oherwydd bod ffordd osgoi flynyddoedd i ffwrdd, bod y Pwyllgor hefyd yn gofyn a ellir gwneud gwaith yn y cyfamser i helpu i leddfu pryderon ynghylch diogelwch llwybrau troed a chroesfannau.

Nododd Joyce Watson y byddai'n fodlon ymweld â Chyngor Cymuned Llanddewi Felffre.

**3.7P-04-345 Cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin**

**3.8P-04-429 Ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddwy ddeiseb. Oherwydd ymateb Llywodraeth Cymru a'r diffyg cefnogaeth ar gyfer agor y rheilffordd, cytunwyd y dylid cau'r ddwy ddeiseb.

**3.9P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i rannu'r wybodaeth a gafwyd gan y deisebwr, nodi'r cyfnod hir y mae'r Pwyllgor wedi bod yn aros am ymateb a nodi'r anawsterau y mae hyn yn eu creu o ran galluogi'r Pwyllgor i ystyried y ddeiseb; ac
- Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Penfro, i ofyn a oes ganddynt unrhyw gynlluniau a chyllid digonol i ddwyn y cynllun hwn ymlaen.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau i'r deisebwr.

**3.10 P-04-409 Enwau Cymraeg i bob cefnffordd newydd yng Nghymru**
**3.11**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn egluro'r hyn y mae'r deisebwr yn gofyn amdano, a gofyn a yw hyn yn newid ei farn mewn perthynas â'r ddeiseb; a
- Chomisiynydd y Gymraeg yn ceisio ei barn ar y materion sy'n cael eu codi gan y deisebwr.

**3.12 P-04-376 Aildrefnu Addysg ym Mhowys**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb. Oherwydd datblygiadau diweddar, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

**3.13 P-04-427 Cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at:

- Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn a yw'n teimlo bod y ddeddfwriaeth bresennol yn gwarchod siaradwyr Cymraeg yn ddigonol, a pha fesurau pellach sydd eu hangen, os o gwbl; a'r
- Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gofyn iddi egluro a all y Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth o'r fath.

**3.14 P-04-437 Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref**

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth Weinidogol am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn iddo roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor unwaith y bydd penderfyniad ar y ffordd ymlaen wedi cael ei wneud.

### 3.15 P-04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy’n agos i’w cartrefi

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth Weinidogol am y ddeiseb, a chytunodd i:
- geisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi;
- ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad a nodi tystion posibl i roi tystiolaeth i’r Pwyllgor;
- ysgrifennu at y deisebwyr a’r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth;
- gwahodd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru i roi tystiolaeth lafar; a
- nodi awdurdodau lleol sy’n dangos arfer da yn y maes hwn, a’u gwahodd i roi tystiolaeth lafar.

### 3.16 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, yn gofyn iddo roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am ganfyddiadau’r ymgynghoriad a sut y bydd y rhain yn effeithio ar weithredu rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd.

### 3.17 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb, a chytunodd i:
- ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i ofyn am eglurhad o sut y mae’n bwriadu dwyn mater teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai yn ei flaen a’r amserlen ar gyfer gwneud hynny; a
- chomisiynu papur ymchwil ar sut yr ymdrinir â’r mater hwn ledled Ewrop.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunwyd ar y cynnig.

## 5. P-04-335 Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru: Materion allweddol

Bu’r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb ynghylch sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru a chytunodd ar gyfeiriad adroddiad.

## 6. Derbynioldeb – materion nad ydynt wedi’u datganoli

Bu’r Pwyllgor yn trafod y broses o ganiatáu deisebau, a chytunodd i drefnu cyfarfod â’r Llywydd i drafod y broses hon ymhellach.

## 7. Papurau i'w nodi

Cafodd y papurau eu nodi.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.